# Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru

**2021-2024**

**Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio**
Gogledd Cymru • North Wales
**Vulnerability and Exploitation Board**



*‘Gweithio mewn partneriaeth i daclo Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl a Chamfanteisio.’*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | **3** |
| Crynodeb Gweithredol | **4** |
| Ein Pwrpas | **5** |
| Ein Gweledigaeth | **6** |
| Nodau ac Amcanion Strategol | **7** |
| Llywodraethu | **10** |
| Cynrychiolaeth a Phartneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio | **10** |
| Adrodd gan aelodau'r cyhoedd | **12** |
| Diffiniadau | **13** |






# Rhagair

## Stephen Hughes, Cadeirydd - Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru

Mae mynd i'r afael â chamfanteisio ar y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas yn un o'r heriau pwysicaf i ni i gyd. Mae cydweithio mewn partneriaeth effeithiol i leihau bregusrwydd a chamfanteisio yn flaenoriaeth i bob asiantaeth statudol a'n cydweithwyr yn y sector gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r effaith a'r materion sy'n codi o achosion o gam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern, llinellau cyffuriau a throseddau difrifol eraill yn aml yn llawer ehangach na phlismona yn unig, a dim ond mewn partneriaeth y gellir darparu ymateb effeithiol.

Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn gonglfaen i'r ymdrechion i amddiffyn y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau. Mae'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn cynllunio i fwrw iddi ac arwain y gwaith partneriaeth hwnnw a'r Bwrdd hwn fydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon.

Mae'n fwriad clir gan yr holl asiantaethau i wella bywydau pobl fregus sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Mae gennym oll gyfrifoldeb ar y cyd i adnabod dioddefwyr posibl oherwydd eu bregusrwydd ac i'w diogelu rhag risg pellach o niwed.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn gosod allan y camau gweithredu i'w cymryd gan yr holl asiantaethau er mwyn mynd i'r afael â'r troseddau ofnadwy hyn a nodi sut y byddwn yn amddiffyn dioddefwyr rhag niwed pellach. Rwy'n ddiolchgar i'r holl asiantaethau am eu cefnogaeth i'r strategaeth hon ac edrychaf ymlaen at gydweithio i'w rhoi ar waith.



Stephen Hughes

# Crynodeb Gweithredol

**Ein gweledigaeth**: 'Galluogi pobl Gogledd Cymru i fyw bywydau diogel, cyfartal a rhydd o drais, mewn cymunedau heb ofn, camdriniaeth na chamfanteisio.'

Mae Gogledd Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â phob agwedd ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl a Chamfanteisio.

Mae Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn cynrychioli'r holl bartneriaid statudol ac anstatudol ar draws y rhanbarth, sydd wedi ymrwymo i ddull cydweithredol, cydgysylltiedig o fynd i'r afael â phob maes o fregusrwydd a chamfanteisio.

Mae Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2024 yn cynnwys dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â bregusrwydd a chamfanteisio yng Ngogledd Cymru. Mae agenda Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern yn cyd-fynd â'r pedwar **Nod Strategol**:

**PARATOI** | **ATAL** | **AMDDIFFYN** | **YMROI**

Mae'r Strategaeth yn galluogi a chefnogi arferion a syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau presennol, i ddarparu pecyn cymorth cydlynol i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd. Mae'r Strategaeth hefyd yn sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dwyn i gyfrif ac yn cefnogi cymunedau i hyrwyddo ethos o ddiogelwch, cydraddoldeb a llesiant.

# Ein Pwrpas

Mae Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn rhwydwaith strategol o asiantaethau sydd wedi'u halinio ar draws pob un o'r chwe Ardal Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), gan gynnwys sefydliadau statudol, anstatudol a'r trydydd sector.

Pwrpas y bartneriaeth strategol yw creu gwasanaeth cydgysylltiedig, effeithlon ac ymateb cynhyrchiol er mwyn mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern , Masnachu Pobl a Chamfanteisio. Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- Gweithio ar y cyd i sicrhau bod unigolion o fewn ein cymunedau a all fod yn fregus a/neu yn destun camfanteisio yn cael eu hadnabod a'u clywed mewn er mwyn cael y canlyniad gorau ar eu cyfer.
- Meithrin ymddiriedaeth a hyder trwy weithio ochr yn ochr ac o fewn ein cymunedau.

Mae'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn ymdrin ag ystod eang o gam-drin, gan gynnwys gorfodi, rheoli a masnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio, sy'n cwmpasu camfanteisio rhywiol, camfanteisio ar lafur, camfanteisio troseddol (gan gynnwys gweithgaredd 'Llinellau Cyffuriau'), caethwasanaeth domestig a chamfanteisio ariannol.

Bydd cyfeiriadau at 'Gaethwasiaeth Fodern' neu 'Gamfanteisio' drwy'r ddogfen hon yn cyfeirio at Gaethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl a Chamfanteisio.

Gellir gweld y diffiniadau sy'n ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl a Chamfanteisio yma.



# Ein Gweledigaeth

‘Gall pobl Gogledd Cymru fyw bywydau diogel, cyfartal a rhydd o drais, mewn cymunedau heb ofn, camdriniaeth na chamfanteisio’.



# Nodau ac Amcanion Strategol

Mae Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2024 yn defnyddio dull cydgynhyrchiol o fynd i'r afael â bregusrwydd a chamfanteisio yng Ngogledd Cymru. Mae'r agendâu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Chaethwasiaeth Fodern yn cyd-fynd â'r pedwar Nod Strategol, sef 'Paratoi', 'Atal', 'Amddiffyn' ac 'Ymroi' gydag amcanion strategol penodol ynghlwm wrth bob maes.

Ymgymerwyd â datblygu'r strategaeth hon a'r cynllun cyflawni cysylltiedig mewn ymgynghoriad ag asiantaethau partner. Mae Gogledd Cymru wedi cydweithio ers tro i fynd i'r afael â phob agwedd ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn seiliedig ar 6 amcan allweddol, wedi'u hategu gan yr amcanion cenedlaethol sydd wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r Strategaeth Caethwasiaeth Fodern yn cael ei chyflwyno yn unol â'r Strategaeth Caethwasiaeth Fodern (Swyddfa Gartref 2015) ac mae'n cymryd i ystyriaeth Amcanion Strategol Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru.

Mae pob asiantaeth bartner yn cydymffurfio â 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso', Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan. Mae'r Gweithdrefnau'n helpu ymarferwyr i gymhwyso deddfwriaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau diogelu statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

Mae cynllun cyflawni cyffredinol sy'n gyraeddadwy ac yn fesuradwy yn hanfodol i gyflawni nodau ac amcanion strategol yn llwyddiannus. Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r camau gweithredu i gyflawni'r Nodau a'r Amcanion Strategol. Bydd y camau gweithredu hyn yn arwain partneriaid i rannu gwybodaeth mewn modd amserol, cynhyrchu adroddiadau data da a chynnig cymorth rhagweithiol i ddioddefwyr a thystion. Bydd camau o'r fath yn galluogi asiantaethau statudol, anstatudol a gorfodi'r gyfraith i gydweithio'n gynhyrchiol.

Ymdrinnir ag amcanion o fewn y Cynllun Cyflawni drwy Ffrydiau Gwaith meysydd penodol. Y rhain ydy:

- Plant a Phobl Ifanc
- Troseddwyr
- Cam-drin ar sail anrhydedd
- MARAC/ADAPT
- Comisiynu ar y Cyd
- Trais Rhywiol
- Safleoedd tystiolaeth diogel

Bydd y ffrydiau gwaith yn cynnwys arweinwyr gweithredol ledled y bartneriaeth, er mwyn gyrru'r gwaith ymlaen o fewn eu sefydliadau eu hunain. Yn ei dro, bydd gwaith y grwpiau hyn yn bwydo i amcanion newydd o fewn y Cynllun Cyflawni. Felly rydym yn addasu'n gyson ac yn ymdrin ag anghenion lleol a rhanbarthol.

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PARATOI** | Cefnogi partneriaeth a chymunedau i ddeall cwmpas ac ehangder y broblem, adnabod beth yw risg a deall sut i gynyddu diogelwch a hybu perthnasoedd iach. | **AMCAN STRATEGOL 1:** | Herio agwedd y cyhoedd i drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Gogledd Cymru. Gwneir hyn drwy godi ymwybyddiaeth a lle i drafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o'i leihau'n digwydd. |
| **ATAL** | Ymrwymo i ymagwedd systemau cyfan o atal. Defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i amddiffyn dioddefwyr. | **AMCAN STRATEGOL 2:** | Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cysylltiadau diogel, cyfartal ac iach ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion a'u galluogi nhw wneud dewisiadau personol cadarnhaol. |
| **AMDDIFFYN** | Darparu'r cymorth, ymyrraeth a gwasanaethau gorau posibl i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd, yn ogystal â chefnogi newid ymddygiad troseddwyr lle bo hynny'n briodol. | **AMCAN STRATEGOL 3:** | Cynyddu'r sylw ar ddwyn y bobl hynny sy'n cam-drin yn atebol a chynorthwyo'r bobl hynny a all fod yn cam-drin neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu. |
| **YMROI** | Ymateb i gyflawnwyr, gan eu dwyn i gyfrif drwy weithgareddau gorfodi. | **AMCAN STRATEGOL 4:** | Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth. |
| | | **AMCAN STRATEGOL 5:** | Hyfforddir gweithwyr proffesiynol perthnasol i roi ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr. |
| | | **AMCAN STRATEGOL 6:** | Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwyr at wasanaethau ag adnoddau priodol, ansawdd uchel, yn cael eu harwain gan angen, yn seiliedig ar gryfder, yn rhyngadrannol ac ymatebol ledled Cymru. |

# Caethwasiaeth Fodern

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PARATOI** | Lleihau'r niwed a achosir gan gaethwasiaeth fodern drwy wella'r broses o adnabod dioddefwyr a gwella cymorth ac amddiffyniad. | **AMCAN STRATEGOL:** | 1) Dioddefwyr<br>Cefnogi dioddefwyr ym mhob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a rhoi iddynt yr offer sydd eu hangen arnynt i wneud adferiadau ystyrlon.<br>2) Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth<br>Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwella gwybodaeth a sgiliau gweithwyr proffesiynol wrth ymateb i Gaethwasiaeth Fodern. |
| **ATAL** | Atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau caethwasiaeth fodern. | **AMCAN STRATEGOL:** | 3) Atal Trosedd<br>Amharu ar droseddau cyfundrefnol sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o Gaethwasiaeth Fodern o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. |
| **AMDDIFFYN** | Cryfhau mesurau diogelu yn erbyn caethwasiaeth fodern trwy amddiffyn pobl fregus rhag camfanteisio a chynyddu ymwybyddiaeth a gwydnwch yn erbyn y drosedd hon. | **AMCAN STRATEGOL:** | 4) Cymunedau Gwydn<br>Cynyddu atgyfeiriadau i'r NRM a gwella'r ymateb lleol er mwyn adnabod dioddefwyr a diogelu cymunedau sydd mewn perygl. |
| **YMROI** | Erlyn ac amharu ar unigolion a grwpiau sy'n gyfrifol am gaethwasiaeth fodern. | **AMCAN STRATEGOL:** | 5) Gorfodaeth<br>Cefnogi asiantaethau i sicrhau bod pwerau cyfreithiol effeithiol yn cael eu defnyddio a gweithredu cadarnhaol ynhyd ag ymchwiliadau a arweinir gan dystiolaeth gyda golwg ar achosion Cyfiawnder Troseddol, lle bo hynny'n berthnasol.<br>6) Llywodraethu<br>Datblygu strwythur llywodraethu addas ac effeithiol sy'n ymgorffori atebolrwydd a monitro perfformiad.<br>7) Cynaliadwyedd<br>Sicrhau cynaliadwyedd ein hymateb partneriaeth gan gynnwys arweinyddiaeth barhaus ac adnoddau a rennir. |

# Llywodraethu

Bydd Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn atebol am y strategaeth hon. Dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae'r Bwrdd Partneriaeth Strategol yn darparu goruchwyliaeth, cyfeiriad a chefnogaeth i bartneriaid lleol er mwyn sicrhau ymagwedd gydweithredol. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter i fonitro a gwerthuso cynnydd tuag at y Nodau a'r Amcanion Strategol fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Cyflawni a'r Camau Gweithredu. Bydd y Ffrydiau Gwaith yn eu tro yn ymdrin â nodau ac amcanion o fewn y Cynllun Cyflawni ac yn symud y gwaith ymlaen ymhob maes agenda. Bydd y gwaith hwn wedyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Strategol yn chwarterol.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn cyfarfod â chymheiriaid o Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Ddiogelach, Byrddau Diogelu (Oedolion/Plant), y Bwrdd Cystadeluaeth, y Bwrdd Cyfiawnder a'r Bwrdd Arwain Rhanbarthol i sicrhau aliniad ffrydiau gwaith.

## Cynrychiolaeth a Phartneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Barnardo's / Gwarcheidwaid Annibynnol Masnachu Plant (ICTGau)
- BAWSO
- BIPBC
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Uned ddiogelwch Cam-drin Domestig (DASU)Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Y Gwasanaeth Prawf
- Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Cymru (RASASC)
- Tîm Rhanbarthol VAWDASV
- Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-Gaethwasiaeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Gwynedd
- Haven of Light
- CEM Berwyn
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Gellir comisiynu ffrydiau gwaith neu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar wahân sy'n cynnwys partneriaid priodol i ddarparu'r camau gweithredu, er mwyn cyflawni'r nodau ac amcanion strategol priodol. Er nad yw'n rhestr gyflawn, gall hyn gynnwys yr isod:

- Aberconwy WA
- Gweithredu dros Blant
- Advance Brighter Futures
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
- Llu'r Ffin
- Partneriaeth Parc Caia
- Cymorth i Fenywod Tai Clwyd Alyn
- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Tîm Cefnogi Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru (EYST)
- Teulu Ffrindiau
- Awdurdod Camdriniaeth Gangfeistri a Llafur (GLAA)
- Gorwel
- Hafan Cymru
- CThEM
- Homestart Wrecsam
- Sefydliad Lucy Faithful
- Migrant Help
- Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern
- Yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol
- National Ugly Mugs (NUM)
- Llwybrau Newydd
- NFU
- NSPCC
- Canolfan i Fenywod Gogledd Cymru
- PACT
- Canolfan Gymorth Integredig Pwylaidd (PISC)
- Y Groes Goch
- Y Cyngor Ffoaduriaid
- Byddin yr Iachawdwriaeth
- Cerrig Camu
- TGP Cymru
- Ymddiriedolaeth Trussell
- Cefnogi Dioddefwyr
- Cymdeithas Tai Wales & West

# Adrodd gan aelodau'r cyhoedd

- Ffoniwch Heddlu Gogledd Cymru ar **101** neu, **999** mewn argyfwng
- Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern **08000 121 700** www.modernslaveryhelpline.org/report

  Mae'r Ap Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern yn gwneud adrodd i'r Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern hyd yn oed yn haws. Mae'r Ap yn darparu canllaw a syml adnabod arwyddion caethwasiaeth fodern a rhoi gwybod am bryderon yn gyfrinachol. Chwiliwch am 'Caethwasiaeth Fodern' neu 'Unseen UK' mewn siopau apiau.
- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn **0808 80 10 800**
- Llinell Gymorth BAWSO **0800 731 8147**
- Childline **0800 11 11**
- CrimeStoppers **0800 555111**



# Diffiniadau

## BREGUSRWYDD

Mae person yn fregus os ydyw, o ganlyniad i'w sefyllfa neu amgylchiadau, yn methu â chymryd gofal neu amddiffyn ei hun, neu eraill, rhag niwed neu gamfanteisio.

## TRAIS YN ERBYN MENYWOD

Diffinnir 'trais yn erbyn menywod' gan y Cenhedloedd Unedig ac eraill fel gweithredoedd o drais sy'n cael eu dioddef yn anghymesur gan fenywod sy'n arwain at, neu'n debygol o arwain at, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol neu feddyliol i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu golli rhyddid yn fympwyol, boed hynny mewn bywyd cyhoeddus neu breifat. Deellir bod trais yn erbyn menywod yn cwmpasu ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

(a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin plant sy'n ferched yn rhywiol yn y cartref, trais yn ymwneud â gwaddol, treisio o fewn priodas, anffurfio organau cenhedlu menywod ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais gan rywun nad yw'n briod a thrais sy'n gysylltiedig â chamfanteisio;

(b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned gyffredinol, gan gynnwys trais rhywiol, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol ac mewn mannau eraill, masnachu mewn menywod a phuteindra gorfodol;

(c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a oddefir gan y Wladwriaeth, lle bynnag y mae'n digwydd.

## CAM-DRIN DOMESTIG

Diffiniad Llywodraeth y DU o gam-drin domestig yw 'unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gam-drin rhwng rhai 16 oed a throsodd sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb.'

## TRAIS RHYWIOL

Mae trais rhywiol yn unrhyw weithred neu weithgaredd rhywiol digroeso. Mae llawer o wahanol fathau o drais rhywiol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: trais rhywiol, ymosodiad rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, aflonyddu rhywiol, trais rhywiol o fewn priodas/perthynas, masnachu mewn pobl, camfanteisio rhywiol, a cham-drin defodol.

## CAETHWASIAETH FODERN (Adran 1, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015)

Mae Caethwasiaeth Fodern yn cwmpasu caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol. Mae person yn cyflawni'r drosedd hon os yw'n dal person arall mewn caethiwed neu'n gaeth a bod yr amgylchiadau'n golygu bod y person yn gwybod neu y dylai wybod bod y person arall yn cael ei ddal mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth, neu ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall gyflawni llafur gorfodol ac os yw'r amgylchiadau'n golygu bod y person yn gwybod neu y dylai wybod bod gofyn i'r person arall gyflawni llafur gorfodol.

## CAETHWASIAETH

Mae Confensiwn Caethwasiaeth 1926 yn diffinio caethwasiaeth fel 'statws neu gyflwr person yr arferir unrhyw un neu bob un o'r pwerau sy'n gysylltiedig â'r hawl perchnogaeth drosto'.

## CAETHWASANAETH

Mae 'caethwasanaeth' yn golygu rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth trwy orfodaeth. Mae caethwasanaeth yn ffurf 'fwy ddifrifol' ar lafur gorfodol. Y nodwedd wahaniaethol sylfaenol rhwng caethwasanaeth a llafur gorfodol yw bod y dioddefwr yn teimlo bod ei gyflwr yn barhaol a bod y sefyllfa'n annhebygol o newid.

## LLAFUR GORFODOL NEU DAN ORFODAETH

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig Rhif 29 sy'n ymwneud â llafur gorfodol yn diffinio 'llafur gorfodol neu dan orfodaeth' fel 'yr holl waith neu wasanaeth sy'n ofynnol gan unrhyw berson o dan fygythiad o unrhyw gosb ac nad yw'r person hwnnw wedi cynnig ei hun yn wirfoddol ar ei gyfer'. Gall 'cosb' fynd mor bell â thrais corfforol neu atal, ond gall hefyd fod ar ffurfiau cynnil o natur seicolegol, megis bygythiadau i ddatgelu dioddefwyr i'r heddlu neu awdurdodau mewnfudo pan fo eu statws cyflogaeth yn anghyfreithlon. Mae cydsyniad yn ffactor mewn llafur gorfodol, ond gall dioddefwyr fod wedi rhoi cydsyniad mewn sefyllfa lle roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis arall ymarferol, ac os felly gallent ddal i fod yn destun llafur gorfodol neu dan orfodaeth.



Nid yw llafur gorfodol wedi'i gyfyngu i sector penodol o'r farchnad lafur ond mae achosion wedi'u nodi yn y sectorau gweithgynhyrchu, prosesu bwyd, amaethyddiaeth a lletygarwch:

## CAETHWASANAETH DOMESTIG

Mewn rhai achosion, gall dioddefwyr ymddangos yn rhydd i symud a gadael y tŷ o'u hewyllys rhydd eu hunain. Fodd bynnag, efallai na fydd ganddynt ryddid ystyrlon i symud oherwydd, er enghraifft, diffyg cyfrif banc, cyllid neu ddogfennau adnabod sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddychwelyd at eu cyflogwr.

## MASNACHU DYNOL (Adran 2, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015)

Mae person yn cyflawni'r drosedd hon os yw'n trefnu neu'n hwyluso taith person arall gyda'r bwriad o gamfanteisio ar y person hwnnw. Mae'n amherthnasol a yw'r person, oedolyn neu blentyn, yn cydsynio i'r daith.

## **CAMFANTEISIO** (Adran 3, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015)

I fod yn ddioddefwr, rhaid bod rhywun wedi cael ei fasnachu at ddiben ‘camfanteisio’ a all fod ar ffurf:

Caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu dan orfodaeth (gweler y diffiniadau uchod); camfanteisio rhywiol; sicrhau gwasanaethau ac ati trwy rym, bygythiadau neu dwyll; sicrhau gwasanaethau ac ati gan blant a phobl fregus.

## CAMFANTEISIO RHYWIOL

(a) sy’n ymwneud â chyflawni trosedd o dan

(i) adran 1(1)(a) o’r Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 (ffotograffau anweddus o blant), neu

(ii) Rhan 1 o’r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau rhywiol), fel y mae’n weithredol yng Nghymru a Lloegr, neu

(b) a fyddai’n golygu cyflawni trosedd o’r fath pe bai’n cael ei gwneud yng Nghymru a Lloegr.

Diffinnir **CAMFANTEISIO’N RHYWIOL AR BLANT** yn ‘Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant: Diffiniad a Chanllaw i Ymarferwyr’ sy’n datgan fel a ganlyn:

*‘Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol. Mae’n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, ystrywio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i weithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae’r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu ( b) er budd ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu’r hwylusydd. Efallai bod y dioddefwr wedi profi camfanteisio rhywiol hyd yn oed os yw’r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio’n rhywiol ar blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd trwy ddefnyddio technoleg.’* (Yr Adran Addysg, 2017).

Diffinnir **LLINELLAU CYFFURIAU** yn y 'Strategaeth Trais Difrifol' sy'n datgan:

*'Mae llinellau cyffuriau yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol trefniadol sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio [o fewn y DU], gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu ffurf arall o 'linell ddelio'. Maent yn debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion bregus er mwyn symud [a storio] y cyffuriau a'r arian a byddant yn aml yn defnyddio gorfodaeth, brawychu, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.'* (Y Swyddfa Gartref, 2018).

## GORFODI I DROSEDDU

Gall Gorfodi i Droseddu gynnwys:-

- pigo pocedi
- dwyn o siopau
- masnachu neu feithrin cyffuriau

## CAMFANTEISIO'N DROSEDDOL AR BLANT

Mae Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, ystrywio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i unrhyw weithgaredd troseddol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) er budd ariannol neu fantais arall y cyflawnwr neu'r hwylusydd a/neu drwy drais neu fygythiad o drais. Efallai bod y dioddefwr wedi profi camdanteisio troseddol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio'n droseddol ar blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd trwy ddefnyddio technoleg (Y Swyddfa Gartref, 2018).



## CAMFANTEISIO ARIANNOL

Mae hyn yn cyfeirio at ddefnydd anghyfreithlon neu amhriodol o arian, eiddo neu asedau person gan berson neu endid arall y maent yn ymddiried ynddynt. Mae hyn yn digwydd yn aml yn ddiarwybod neu heb gydsyniad penodol oedolyn hŷn neu anabl. Mae asedau'n cael eu cymryd yn gyffredin trwy fathau o dwyll, gorfodaeth, aflonyddu, gorfodaeth a bygythiadau.

Yn cyfeirio at ddefnydd anghyfreithlon neu amhriodol o arian, eiddo neu asedau person gan berson neu endid y gellir ymddiried ynddo. Mae hyn yn digwydd yn aml heb wybodaeth neu ganiatâd penodol oedolyn hŷn neu anabl. Mae asedau'n cael eu cymryd yn gyffredin trwy fathau o dwyll, gorfodaeth, aflonyddu, yn groes i ddymuniad a dan fygythiad.

Diffinnir **PERSON AR GOLL** fel a ganlyn: 'Bydd rhywun na ellir canfod eu lleoliad yn cael eu hystyried fel rhywun ar goll hyd nes y byddant wedi eu canfod a'u llesiant neu fel arall wedi'i gadarnhau.'

# Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru

## 2021-2024

**Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio**
Gogledd Cymru • North Wales
**Vulnerability and Exploitation Board**

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
Believe in children Barnardo's
Bawso – Providing specialist services for BME communities
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales
Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
DASU – Domestic Abuse Safety Unit / Uned Diolgelwch Trais Teuluol
Cyngor sir ddinbych / denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council
Cyngor Gwynedd Council
Haven of Light
Berwyn
Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru / North Wales Fire and Rescue Service
YJB – Youth Justice Board / Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Office of the Police & Crime Commissioner North Wales
National Probation Service
Gogledd Cymru rasasc North Wales
VAWDASV – Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence / Trais Yn Erbyn Menywod, Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam